

# **Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu Gwella plismona ar gyfer Pobl Ddu**

## **Crynodeb o'r arolwg adborth a'r camau nesaf**

Chwefror 2023



Mae Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu wedi'i ddatblygu ar y cyd gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a'r Coleg Plismona gyda mewnbwn gan randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du, Cadeirydd y Bwrdd Craffu a Goruchwylio Annibynnol, a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn, cysylltwch â thîm Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu NPCC yn [inclusionandrace@npcc.police.uk](mailto:inclusionandrace@npcc.police.uk)

Hawlfraint y Coleg Plismona Cyfyngedig (2023)

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau [Trwydded Anfasnachol y Coleg f1.1](#), ac eithrio lle nodir fel arall.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw. Gall y cyhoeddiad hwn gynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus wedi'i thrwyddedu dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 yn [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Crëwyd y ddogfen hon gyda'r bwriad o wneud y cynnwys yn hygyrch i'r ystod ehangaf o bobl, ni waeth beth fo'u hanabledd neu eu nam. I wneud ymholiadau ynghylch darparu'r ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch [â ni](#)

# Cynnwys

<b>Casgliadau cryno a chamau nesaf</b>	<b>2</b>
<b>Beth yw Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu?</b>	<b>2</b>
<b>Pam y casglwyd adborth ar y cynllun?</b>	<b>3</b>
<b>Sut y casglwyd adborth?</b>	<b>3</b>
<b>Pwy roddodd adborth?</b>	<b>3</b>
<b>Beth oedd yr adborth?</b>	<b>4</b>
Hyder y bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol	4
Sylwadau testun agored ar y cynllun	5
<b>Beth sy'n digwydd nesaf?</b>	<b>6</b>

## Casgliadau cryno a'r camau nesaf

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb lefel uchel o'r 5,069 o ymatebion i arolwg adborth ar Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Ar y cyfan, canfu'r arolwg fod ymatebwyr yn rhanedig o ran eu barn ynghylch a fyddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol. Roedd ymatebwyr Du neu gymysg Ddu yn fwy amheus nag ymatebwyr Gwyn, sy'n ddealladwy o ystyried y problemau ynghylch hil a hiliaeth sy'n bodoli ers tro ym maes plismona. Amlygodd y gyfran gymharol uchel o ymatebwyr nad oedd wedi penderfynu - tua thraean - yr angen i fwrw ymlaen â'r ymrwymadau yn y cynllun i wella plismona ar gyfer pobl Ddu.

Cyflwynodd y Bwrdd Craffu a Goruchwylio Annibynnol (ISOB) ar gyfer Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, dan arweiniad y Bargyfreithiwr Abimbola Johnson, adborth hefyd, yn ogystal â grwpiau cydraddoldeb hiliol cenedlaethol a sefydliadau sydd â diddordeb a phrofiad mewn materion hil. Darparodd partneriaid plismona - gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du, Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu, a Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr - adborth, a choladodd pob heddlu yng Nghymru a Lloegr adborth gan eu cymunedau, rhanddeiliaid, swyddogion a staff.

Bellach ystyrir yr holl adborth i nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddatblygu'r cynllun ymhellach a llywio ei weithrediad. Mae'n bosibl y bydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn newid o ganlyniad i'r adborth, gyda fersiwn terfynol i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2023.

## Beth yw Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu?

Lansiodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a'r Coleg Plismona fersiwn drafft o Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu ym mis Mai 2022. Roedd y cynllun drafft yn nodi gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth heddlu sy'n wrth-hiliol ac y mae pobl Ddu yn ymddiried ynddo. Mae hefyd yn cynnwys cynigion i helpu i sicrhau nad yw pobl Ddu yn cael eu tan-amddiffyn na'u gor-blismona, yn ymwneud â llywodraethu'r heddlu, ac yn cael eu cynrychioli yn y gweithlu.

## Pam y casglwyd adborth ar y cynllun?

Fel yr eglurodd y cynllun, mae'n bwysig i'r heddlu wrando ar brofiadau eraill a gwahodd craffu allanol ar ei gynlluniau, yn enwedig gan bobl sy'n nodi eu bod yn Ddu neu â threftadaeth Ddu gymysg. Roedd yn hanfodol felly roi cyfle i'r cyhoedd, rhanddeiliaid, swyddogion heddlu a staff rannu eu barn ar Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Y nod oedd defnyddio'r adborth hwn, yn ogystal ag ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, i ddatblygu'r cynllun ymhellach.

## Sut y casglwyd adborth?

Gwahoddwyd y cyhoedd, swyddogion heddlu unigol a staff, a chynrychiolwyr o faes plismona a sefydliadau eraill i rannu eu barn ar y cynllun drwy lenwi arolwg adborth ar-lein. Gofynnwyd cwestiynau arolwg iddynt ar y cynllun yn gyffredinol, ei ddeilliannau arfaethedig ac ymrwymadau penodol yn y cynllun, a rhoddwyd cyfle iddynt ddarparu sylwadau testun agored. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Mai ac Awst 2022, gan dderbyn mwy na 5,000 o ymatebion.

## Pwy roddodd adborth?

Derbyniwyd cyfanswm o 5,069 o ymatebion i'r arolwg. Ymatebodd mwyafrif helaeth o bobl (4,941) yn bersonol, er bod rhai (128) wedi ymateb ar ran sefydliadau. I'r rhai a ymatebodd yn bersonol, roedd y dadansoddiad fel a ganlyn.

- Rhywedd:
  - Roedd 53% yn fenywod
  - Roedd 41% yn ddynion
  - Roedd 6% heb nodi eu rhywedd

- Oedran:
  - Roedd 11% yn 34 oed neu iau
  - Roedd 17% rhwng 35 a 44 oed
  - Roedd 23% rhwng 45 a 54 oed
  - Roedd 21% rhwng 55 a 64 oed
  - Roedd 24% yn 65 oed neu'n hŷn
  - Roedd 5% heb nodi eu hoedran
  
- Ethnigrwydd
  - Roedd 6% yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig
  - Roedd 10% yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig neu â threftadaeth Ddu gymysg
  - Roedd 3% o gefndiroedd ethnig cymysg neu luosog eraill
  - Roedd 73% yn Wyn
  - Roedd 8% heb nodi eu hethnigrwydd

## Beth oedd yr adborth?

### Hyder y bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor hyderus oeddent y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol. Roedd y dadansoddiad o'r ymatebion yn gyson ar y cyfan ar gyfer y cynllun yn gyffredinol a'i ymrwymïadau unigol. Dywedodd cyfrannau cymharol gyfartal o ymatebwyr eu bod yn hyderus, ddim yn hyderus neu heb benderfynu.

- Hyder yn y cynllun yn gyffredinol: roedd 30% o ymatebwyr yn hyderus y byddai'r cynllun yn 'mynd i'r afael â thuedd hiliol tuag at bobl Ddu wrth blismona', tra nad oedd 38% yn hyderus ac roedd 32% heb benderfynu.
  
- Hyder mewn ymrwymïadau penodol: Roedd ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn fwyaf hyderus y byddai'r cynllun yn cyflawni 'dim

goddefgarwch o hiliaeth mewn plismona – ar lefel heddlu’ (37% yn hyderus) ac yn lleiaf hyderus y byddai’n arwain at ‘ddatblygiad o gweithlu cynrychioliadol’ (41% ddim yn hyderus).

- Hyder ymhlith ymatebwyr o gefndiroedd ethnig gwahanol:
  - Roedd ymatebwyr a oedd yn Ddu neu o dras Ddu yn gyson yn llai hyderus yn y cynllun a’r ymrwymadau unigol nag ymatebwyr Gwyn. Er enghraifft, roedd 17% o ymatebwyr Du neu gymysg Ddu yn hyderus y ‘bydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn mynd i’r afael â thuedd hiliol tuag at bobl Ddu mewn plismona’, o’u cymharu â 35% o ymatebwyr Gwyn.
  - Roedd ymatebwyr o bob grŵp ethnig arall hefyd yn tueddu i fod yn llai hyderus nag ymatebwyr Gwyn. Roedd tua chwarter (24%) o ymatebwyr Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig ac un rhan o bump (20%) o ymatebwyr o ethnigrwydd cymysg neu luosog yn hyderus ynghylch y cynllun yn gyffredinol.
  - Roedd ymatebwyr gwyn yn tueddu i fod yn fwy ansicr ynghylch effaith debygol y cynllun nag ymatebwyr Du neu gymysg Ddu. Roedd tua chwarter (24%) o ymatebwyr Du neu gymysg Ddu yn ansicr ynghylch y cynllun yn gyffredinol, o’u cymharu â thraean (34%) o ymatebwyr Gwyn.

## Sylwadau testun agored ar y cynllun

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan ymatebwyr ar bob un o ymrwymadau’r cynllun ac yn gyffredinol. Roedd y sylwadau hyn yn cwmpasu ystod eang o bwyntiau, gan gynnwys yr angen am y cynllun, gwaith da a oedd eisoes yn cael ei wneud ac awydd y gymuned gyfan i fynd i’r afael â hiliaeth.

Codwyd sylwadau mwy adeiladol feirniadol ynghylch, er enghraifft, yr her o hwyluso newid, rhwystrau diwylliannol ac effaith debygol y cynllun. Amlygwyd y berthynas rhwng yr heddlu a phobl Ddu hefyd fel rhwystr posibl i recriwtio.

Roedd yn ymddangos bod rhai gwahaniaethau yn yr adborth a ddarparwyd gan ymatebwyr yn ôl eu hethnigrwydd. Roedd yn fwy cyffredin i ymatebwyr a oedd yn Ddu, o dras Ddu gymysg, neu o gefndir Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig i siarad am eu hamheuaeth o’r cynllun oherwydd pryderon am hiliaeth sefydliadol nad yw’n cael sylw.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae lefel yr ymgysylltiad gweithredol yn y cynllun wedi bod yn rhyfeddol. Mae pob ymateb yn cael ei werthfawrogi ac yn ychwanegu at gyfreithlondeb y cynllun. Yn ôl y disgwyl, mae'r arolwg adborth wedi codi heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw wrth ddatblygu a gweithredu'r cynllun ymhellach.

Nid yw'n syndod bod ymatebwyr a oedd yn Ddu neu o dras Ddu gymysg yn llai hyderus yn y cynllun nag ymatebwyr Gwyn. Byddent, wrth reswm, yn fwy amheus oherwydd y materion hirsefydlog sy'n ymwneud â hil a hiliaeth ym maes plismona, arafwch y newid a'u profiadau eu hunain. Mae'r ffaith fod cyfran gymharol fawr o'r ymatebwyr heb benderfynu ynglŷn â'r cynllun – tua thraean – yn amlygu'r angen i benaethiaid yr heddlu ddilyn yr ymrwymïadau i'r cynllun i wella plismona ar gyfer pobl o dreftadaeth Ddu.

Bydd canlyniadau'r arolwg adborth yn cael eu hategu gan adborth a dderbyniwyd o ffynonellau eraill, gan gynnwys gan:

- yr ISOB ar gyfer Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu
- grwpiau cydraddoldeb hiliol cenedlaethol a sefydliadau sydd â diddordeb a phrofiad mewn materion hil
- partneriaid plismona (megis Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du, Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu, a Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr)
- cymunedau lleol y gofynnwyd i luoedd eu casglu gan ddefnyddio proses pum cam

Bydd yr holl adborth hwn yn cael ei goladu a'i adolygu gyda'i gilydd i ddatblygu'r cynllun ymhellach a llywio ei weithrediad. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gyda phrif swyddogion a grwpiau allweddol, gan gynnwys yr ISOB, Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu Du a phartneriaid eraill ym maes plismona.

Gallai Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu newid o ganlyniad i'r adborth a ddaeth i law. Mae gwaith i weithredu camau blaenoriaeth yn y cynllun eisoes wedi dechrau a bydd yn parhau i fynd rhagddo. Cyhoeddir fersiwn terfynol o Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yng ngwanwyn 2023, ynghyd â diweddariad ar gyflawni.



## Pa gynnydd sydd wedi ei wneud hyd yn hyn?


Ers lansio'r cynllun ym mis Mai 2022, mae'r NPCC a'r Coleg Plismona wedi parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i fireinio'r gweithgareddau a nodir yn y cynllun, fel bod ganddynt amserlenni clir ar gyfer cyflawni a'u bod yn y sefyllfa orau i wella canlyniadau i bobl Ddu.

Mae'r NPCC a'r Coleg yn benderfynol o wneud cynnydd pendant sy'n cyflawni'r ymrwymiad i wasanaeth yr heddlu fod yn wrth-hiliol. Bydd grŵp o heddluoedd yn 'dorwyr iâ' ar gyfer camau gweithredu blaenoriaeth y cynllun. Byddant yn gweithredu yn arweinwyr ar gyfer gweddill gwasanaeth yr heddlu drwy ddatblygu, rhoi cynnig ar weithgareddau plismona mwy effeithiol a chyfreithlon, a'u gweithredu, i'w defnyddio'n ehangach ledled Cymru a Lloegr. Mae pob cam gweithredu wedi'i gysylltu â chanlyniadau penodol a bydd yn parhau i fod yn destun craffu gan ISOB.

Mae cynnydd gyda'r camau gweithredu yn cynnwys y canlynol.

- Cynigion manwl ar gyfer Strategaeth Tryloywder Data Cenedlaethol ar gyfer gwasanaeth yr heddlu. Nod y strategaeth yw ysgogi tryloywder, atebolrwydd ac uniondeb ym maes plismona trwy sicrhau bod data'r heddlu yn glir ac yn hygyrch, yn agored yn ddiodyn ac y gall pawb eu defnyddio. Cyflwynwyd cynigion i Gyngor y Prif Gwnstabiliaid ym mis Ionawr i'w cymeradwyo.
- Datblygu adroddiad bwloch cyflog ethnigrwydd blynyddol ar gyfer plismona. Mae'r gwaith ar y gweill a bydd canlyniadau gweithgarwch cychwynol yr heddlu ac amserlen ar gyfer mabwysiadu cenedlaethol yn cael eu cyflwyno i Gyngor y Prif Gwnstabiliaid ym mis Ebrill 2023 i'w cymeradwyo.
- Cyflwyno un diffiniad o 'anghymesuredd'. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y diffiniad hwn i'w ddefnyddio gan luoedd i sicrhau asesiad mwy cyson, effeithiol a thryloyw o weithgareddau plismona ledled Cymru a Lloegr.
- Cynllun gweithgareddau penodol mewn ymateb i ganlyniadau arolwg cyntaf 'Ein Gweithlu Du', a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, i adeiladu ar brofiadau cadarnhaol swyddogion a staff Du, ac i fynd i'r afael â'u profiadau heriol.

- Cyflwyno canllawiau diwygiedig NPCC ar gamerâu fideo a wisgir ar y corff yn 2022, a oedd yn nodi meini prawf ar gyfer eu defnydd cyson.
- Newidiadau i'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona (PEQF) i sicrhau bod gan swyddogion newydd well dealltwriaeth o brofiadau cymunedau Du a'u perthynas â phlismona. Mae adolygiadau penodol i'r rôl ar gyfer swyddogion a staff mewn swydd yn parhau.
- Gwerthuso hyfforddiant newydd ar gyfer yr heddlu a diogelwch y cyhoedd i helpu swyddogion heddlu i reoli sefyllfaoedd o wrthdaro yn effeithiol, yn ddiogel a – pan fo'n briodol – heb ddefnyddio grym. Bydd gweithredu'r hyfforddiant ar draws y gwasanaeth yn dechrau o fis Ebrill 2023 ymlaen.
- Treialu'r gwaith o gofnodi digwyddiadau stopio traffig cerbydau, nad yw'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r cam gweithredu hwn yn dangos y penderfyniad i herio arferion sefydledig, nodi a mynd i'r afael â gwahaniaethau, ac – os oes angen – adeiladu achos dros ddiwygio. Bydd diweddariad ar y peilot, gyda llwybr a argymhellir ar gyfer gweithredu cenedlaethol, yn cael ei gyflwyno i Gyngor y Prif Gwnstabiliaid ym mis Chwefror 2023 i'w gymeradwyo.
- Datblygu Cynllun Mentora Cenedlaethol, a bydd rhaglen beilot yn cychwyn yn fuan, a fydd yn gweld gweithwyr proffesiynol a swyddogion gweithredol Du yn darparu cymorth cymheiriaid a mentora i brif swyddogion plismona.



College of  
**Policing**

[college.police.uk](http://college.police.uk)

Dilynwch ni  
**@CollegeofPolice**



[npcc.police.uk](http://npcc.police.uk)

Dilynwch ni  
**@PoliceChiefs**